Prifysgol Cymru
University of Wales

Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch

Cred Prifysgol Cymru fod safon dda o iechyd a diogelwch yn rhan annatod o gynnal ei busnes yn gywir ac mai lleiafswm yn unig yw'r ddyletswydd a'r gofyniad statudol.

Polisi'r Brifysgol yw:

- Cynnal amgylchedd i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr sy'n ddiogel heb beryglon i iechyd.
- Hyrwyddo iechyd a diogelwch fel cyfrifoldeb allweddol i bob rheolwr – a dynodi pwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am iechyd a diogelwch a ffurfio polisi.
- Sicrhau bod cyflogeion yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb personol am eu hiechyd a diogelwch eu hunain ac unrhyw staff, myfyrwyr, contractwyr neu aelodau o'r cyhoedd a gaiff eu heffeithio gan eu gweithgareddau.
- Darparu adnoddau i fonitro perfformiad ac effeithiolrwydd trefniadau'r Brifysgol fel rhan o ymrwymiad i welliant parhaus o ran perfformiad iechyd a diogelwch
- Darparu a chynnal a chadw peiriannau, cyfarpar a systemau gwaith sy'n ddiogel heb risg i iechyd.
- Sicrhau mynedfa ac allanfa diogel i bob adeilad.
- Sicrhau bod trefniadau ar gyfer trin, defnyddio a storio gwrthrychau a sylweddau yn ddiogel heb risg i iechyd.
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth fel bo angen i sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr.
- Gweithredu system ymgynghori i sicrhau bod yr holl staff yn gallu cyfrannu'n effeithiol i gynnal amgylchedd diogel ac iach.

Caiff y polisi hwn ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn a chaiff ei ddiweddaru mor aml ag y bo angen.

Ategir y datganiad polisi hwn gyda datganiad pellach yn ymwneud â threfniadau iechyd a diogelwch yn y Brifysgol, gan gynnwys dyrannu cyfrifoldebau ac atebolrwydd penodol.

Llofnododd…

Yr Is-Ganghellor Medwin Hughes

Dyddiad: 16 Ionawr 2015